



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Thomas - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424110)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 23AIN IONAWR, 2020** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2020, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2019, yn rhai cywir.

5 - 22

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. RHIF Y CAIS: 15/1640

Codi byngalo ar dir ger Rhif 40 Teras Ardwyn, y Gelli (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig 24/10/19), tir ger rhif 40, Teras Ardwyn, y Gelli.

23 - 36

6. RHIF Y CAIS: 19/1185

Trosi Hen Siambrau'r Banc i 9 fflat (llawr cyntaf, ail a thrydydd llawr) (Defnydd Ddosbarth C3 - Tai Anedd), Hen Siambrau'r Banc, Stryd y Farchnad, Pontypridd.

37 - 48

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

7. RHIF Y CAIS: 18/1419/13

Datblygiad preswyl hyd at 350 o anheddau, tir ar gyfer ysgol gynradd newydd bosibl, siop leol a gwaith cysylltiedig gan gynnwys man agored cyhoeddus, isadeiledd gwyrdd, tirlunio a chreu dau fan mynediad newydd oddi ar Heol Dowlais.

8. RHIF Y CAIS: 19/0814/10

Newid defnydd o anheddau preswyl (Dosbarth C3) i 8 o fflatiau myfyrwyr preswyl hunangynhwysol (Sui Generis) gan gynnwys estyniad deulawr yn y cefn.

ADRODDIAD ER GWYBODAETH**9. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 06/12/2019 a 10/01/2020.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

10. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**Cylchrediad:-****Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd R Yeo ac Y Cynghorydd D Williams

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol